

➤ ADRODDIAD BLYNYDDOL 2018/19

CAERDYDD Sy'n Dda i Blant



Mae'r adroddiad yn rhoi dadansoddiad o'n cynnydd tuag at y weledigaeth a'r nodau a amlinellir yn Strategaeth sy'n Dda i Blant Caerdydd, gan ganolbwyntio ar y cynnydd y mae'r ddinas wedi'i wneud ers ei chyhoeddi yn 2018.





Caerdydd yw'r ddinas gyntaf yng Nghymru i gymryd rhan ym menter Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Blant UNICEF y DU. Ein huchelgais yw i Gaerdydd gael ei hadnabod fel Dinas sy'n Dda i Blant: dinas â phlant a phobl ifanc wrth ei gwraidd, lle mae hawliau plant a phobl ifanc yn cael eu parchu gan bawb. Lle gwych i gael eich magu!

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sefydlu ymagwedd ar sail hawliau plant trwy'r gwasanaethau cyhoeddus i ddod ag atebion parhaol i broblemau cymhleth. Mae'n rhaid i ddiddymu rhwystrau sy'n atal ein plant a phobl ifanc rhag pontio'n llwyddiannus i fyd gwaith, dod â'r canlyniadau gorau i blant sydd yn ein gofal a helpu pobl ifanc i fyw yn annibynnol fod yn flaenoriaeth i bawb.

AMCANION

1

CAIFF POB PLENTYN A PHERSON IFANC EI WERTHFAWROGI, EI BARCHU A'I DRIN YN DEG.



2

GWRANDEWIR AR LAIS, ANGHENION A BLAENORIAETHAU POB PLENTYN A PHERSON IFANC.



3

MAE POB PLENTYN A PHERSON IFANC YN CAEL EI FAGU MEWN CARTREF DIOGEL A CHEFNOGOL.



4

MAE POB PLENTYN A PHERSON IFANC YN CAEL ADDYSG DDA SY'N EI DDYSGU AM EI HAWLIAU.



5

MAE GAN BLANT IECHYD CORFFOROL, MEDDYLIOL AC EMOSIYNOL DA AC MAEN NHW'N GWYBOD SUT I GADW'N IACH.



> NOD 1

CAIFF POB PLENTYN A PHERSON IFANC EI WERTHFAWROGI, EI BARCHU A'I DRIN YN DEG




ER MWYN CAEL
LLWYDDIANT YN **NOD 1**,
BYDD CAERDYDD YN...

- ✓ Hyfforddi staff mewn hawliau plant
- ✓ Egluro'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gan sefydliadau a gwasanaethau
- ✓ Hyrwyddo hawliau plant a dathlu plant a phobl ifanc
- ✓ Rhoi gwybodaeth glir i blant a phobl ifanc am gyfleoedd a gwasanaethau
- ✓ Meddwl am sut mae penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn y ddinas yn effeithio ar hawliau plant a phobl ifanc



> CAFODD STRATEGAETH CAERDYDD SY'N DDA I BLANT EI LANSIO

Ar 20 Tachwedd 2018 cafodd y strategaeth Caerdydd sy'n Dda i Blant, fersiwn hygyrch y strategaeth, y brand a'r wefan eu lansio!




> NOD 1



MAP O GAERDYDD
SY'N DDA I BLANT
gan Huw aaron

MAP OF A
CHILD FRIENDLY
CARDIFF
by Huw aaron



> NOD 1



> DIWRNOD CHWARAE 2019

Ymunodd Caerdydd â dinasoedd ledled y byd i ddathlu #DiwrnodChwarae2019. Y thema eleni oedd 'Mae Chwarae'n Adeiladu Plant', sy'n amlgu'r lluo o ffyrdd y mae chwarae o fudd i blant a phobl ifanc; yn adeiladu cyfeillgarwch, gwydnwch, cymunedau, iechyd a lles.



> DIWRNOD PLANT Y BYD 2019

Ar 20 Tachwedd, daeth plant o ledled y ddinas ynghyd i ddathlu #DiwrnodPlantyByd a phen-blwydd CCUHP yn 30 oed. Bu plant ysgol yn cymryd rhan mewn gorymdeithiau, clywed siaradwyr gwadd, cael trafodaethau ar rôl hawliau plant, cyflwyno gwersi a chymryd rhan mewn ffurfio eu cymunedau!



> DIWRNOD DIM CEIR CAERDYDD 2019

Bu #DiwrnodDimCeir ar 14 Mai yn llwyddiant ysgubol, â thua 10,000 o bobl yn llenwi strydoedd Caerdydd a mwynhau digwyddiad Let's Ride HSBC UK a'r adloniant stryd. Mesurodd Air Quality UK ostyngiad sylweddol o ran llygredd ar draws y ddinas a chyda'r haul yn disgleirio ar Gaerdydd roedd y ddinas yn edrych ar ei gorau! Am le hyfryd i fyw a thyfu i fyny ynddo



> SIARTERI HAWLIAU PLANT

Mae Heddlu De Cymru a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro wedi rhoi plant wrth ganol eu gwasanaethau trwy ryddhau eu siarteri hawliau plant i gyd yn seiliedig ar CCUHP.

> HYFFORDDIANT AR HAWLIAU PLANT

Bellach mae 49 o Aelodau Etholedig wedi cwblhau hyfforddiant 'Hawliau Plant y CU ar Waith'. Mae 443 o weithwyr proffesiynol ar draws y rhaglen dinas sy'n dda i blant wedi cwblhau hyfforddiant 'Hawliau Plant y CU ar Waith'. Mae 2083 o swyddogion y Cyngor wedi cwblhau modiwl hyfforddiant ar-lein ar hawliau plant.

> NOD 2

GWRANDEWIR AR LAIS, ANGHENION A BLAENORIAETHAU POB PLENTYN A PHERSON IFANC



ER MWYN CAEL
LLWYDDIANT YN NOD 2
BYDD CAERDYDD YN...

- ✓ Datblygu sgiliau plant a phobl ifanc fel bod eu llais yn cael ei glywed.
- ✓ Annog a chefnogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn ffurfio'r ddinas.
- ✓ Sicrhau bod pobl yn cymryd barn plant a phobl ifanc o ddifrif.



> DIGWYDDIADAU'R PRIF GYNGOR


Mae 467 o ddisgyblion wedi cymryd rhan yn rhaglen y Prif Gyngor. Mae themâu cynadleddau wedi cynnwys:

'Shout Out About Play', Iechyd Meddwl, Datblygu'r Cwricwlwm, Llais y Disgybl ac Addewid Caerdydd

> NOD 2




Adroddiad dinas sy'n dda i blant 2020/19




Comisiynwyr Ifanc

Mae tua 55 o bobl ifanc wedi derbyn hyfforddiant ac wedi helpu gyda'r broses o gomisiynu gwerth dros 65 miliwn o bunnau o wasanaethau.



Cyfwelwyr Ifanc

Mae 63 o bobl ifanc wedi cael hyfforddiant ac wedi cymryd rhan mewn 32 o ddiwrnodau cyfnewid, ac mae tua 160 o gyfnewidiadau wedi'u cynnal yn ystod y cyfnod hwn.



Arolygwyr Ifanc

58 young people have been trained and inspected services.

Mae 58 o bobl ifanc wedi cael eu hyfforddi ac wedi archwilio gwasanaethau. Ers Mawrth 2018, mae 8 sefydliad wedi eu harolygu gan gynnwys AI, ACT, Change Grow Live, Tempo a Gwasanaeth Ieuencid Ceredigion.

2,359

o ddisgyblion wedi derbyn Gweithdai Hawliau a Chyfranogiad iSay

467

o ddisgyblion wedi cymryd rhan yn nigwyddiadau'r Prif Gyngor

Tîm Cyfranogiad Actif

*Ystadegau ers mis Ionawr 2017

472

o sesiynau/gweithdai/digwyddiadau/gweithgareddau wedi'u cynnal

2762

o gysylltiadau rheolaidd (aelodau Cyngor Ieuencid Caerdydd)

7166

o gysylltiadau untro (Prif Gyngorau, darpariaeth iSay etc)

9928

o gysylltiadau wedi'u gwneud i gyd

11203

o oriau gwirfoddoli rheolaidd (aelodau o Gyngor Ieuencid Caerdydd)



Canlyniadau Arolwg Dinas sy'n Dda i Blant

*Casglwyd gwybodaeth gan 6100 o ymatebwyr



3/4

O BLANT WEDI CLYWED AM HAWLIAU PLANT



o blant yn teimlo eu bod yn cael eu trin â pharch gan oedolion y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser

o blant yn credu bod eu rhieni/gwarcheidwaid wedi clywed am hawliau plant



91%

o blant yn teimlo eu bod yn gallu gwneud eu gorau i ddysgu a datblygu yn yr ysgol y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser

24%

o fyfyrwyr yn teimlo bod eu haddysg a'u cynnydd wedi'u hatal gan nad oedden nhw'n "mwynhau bod yn yr ysgol"

87%

o fyfyrwyr ysgol uwchradd yn astudio'r pwnc/cwrs o'u dewis

82%

o fyfyrwyr ysgol uwchradd yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i gwblhau'r pwnc/cwrs o'u dewis



19,214 o blant

yn mynychu Ysgolion sy'n Parchu Hawliau yng Nghaerdydd sydd wedi ennill gwobr efydd neu uwch



83% o blant yn nodi bod eu hiechyd corfforol yn dda neu'n rhagorol



75% o blant yn nodi bod eu hiechyd meddwl yn dda neu'n rhagorol



9% o blant yn nodi bod eu hiechyd meddwl yn wael



32% o blant yn poeni am eu dyfodol


31% o blant yn poeni am yr ysgol

75% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr ysgol yn cynnig cefnogaeth i'r rhai sy'n teimlo'n anhapus neu bryderus neu'n methu ymdopi



Mae 1 o bob 25 o blant yn cyfaddef eu bod yn bwlio rhywun unwaith neu fwy yr wythnos

Mae 1 o bob 10 o blant yn cyfaddef eu bod yn bwlio rhywun unwaith neu fwy yr wythnos



25%

o fyfyrwyr ddim yn gwybod ble i geisio cymorth a chefnogaeth ar gyfer ieuchyd meddyliol a chorfforol



Mae 1 o bob 20 o blant yn profi seiberfwlio rhywun unwaith neu fwy yr wythnos



Dywedodd plant a gafodd eu bwlio mai'r prif resymau y cawsant eu targedu oedd oherwydd eu

pwysau neu eu rhywioldeb

> NOD 2



35%
O BLANT YN TEIMLO BOD POBL YN GWRANDO ARNYNT O RAN PENDERFYNIADAU SY'N CAEL EU GWNEUD YN EU CYMUNED

73%
O BLANT YN TEIMLO BOD POBL YN GWRANDO ARNYNT O RAN PENDERFYNIADAU SY'N CAEL EU GWNEUD YN EU HYSGOL



74%
o blant yn meddwl bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser



79%
o blant yn credu bod y dewis o leodd i bobl ifanc yn eu cymuned yn dda neu'n rhagorol



25%
o blant yn teimlo na wrandewir ar eu barn neu na chaiff ei chymryd o ddiifrif



83%
o blant yn teimlo'n ddiogel yn eu cymdogaeth y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser

DYWEDODD PLANT MAI'R PETHAU GORAU YN EU CYMUNEDAU YW'R BOBL, BOD YN AGOS AT EU HYSGOL A BYW MEWN LLE TAWEL A HEDDYCHLON.

MAE GANGIAU, TROSEDDAU CYLLYLL A CHYFFURIAU YN PERI PRYDER I BLANT.



Nid oedd **87%** o blant wedi dioddef trosedd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf

Arolwg y Comisiynydd Plant 2018/19



Beth yw'r pethau gorau mae athrawon yn eich ysgol yn eu gwneud i'ch helpu i gael/profi eich hawliau?

Maent yn fy helpu i fod y gorau y gallaf fod



Maen nhw'n fy nghadw'n ddiogel

Ydy plant/pobl ifanc yn eich ysgol yn cael cyfle i ddweud eu dweud am sut mae eich ysgol yn gwario arian? (Ymateb disgyblion)



Ydy plant yn cymryd rhan yn y broses o recriwtio staff? (Ymateb athrawon)

18% - BOB AMSER

61% - WEITHIAU

Ydy pobl ifanc yn cymryd rhan mewn cyfweiliadau a dewis athrawon newydd ar gyfer yr ysgol? (Ymateb disgyblion)

6% - NAC YDYN

6% - DDIM YN SIŴR

88% - YDYN

13% - BYTH

8% - DDIM YN SIŴR

Arolwg Staff CFC Gwaelodlin Caerdydd

*Casglwyd gwybodaeth gan 485 o ymatebwyr



Mae 42% o ymatebwyr yn defnyddio hawliau plant i lywio eu gwaith; nid yw 58% yn gwneud hynny.

Mae 51% o ymatebwyr wedi gweld arweinwyr awdurdodau lleol yn siarad am hawliau plant



Roedd **93%** o ymatebwyr yn teimlo bod gwybod am hawliau plant yn helpu plant i gael y cymorth sydd ei angen arnynt

Roedd **86%** yn cytuno y dylai plant gael eu cynnwys fel mater o drefn mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn anuniongyrchol e.e. cynllunio trefol.

Mae **91%** yn credu bod cynnwys plant mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn arwain, yn gyffredinol, at ganlyniadau gwell.

Mae **93%** yn cytuno bod defnyddio dull sy'n seiliedig ar hawliau plant yn ei gwneud yn haws herio penderfyniadau nad ydynt er budd gorau'r plentyn.



**CAERDYDD
Sy'n Dda
i Blant**


> NOD 2



> UWCHGYNHADLEDD IEUENCTID CYMRU GYFAN

Cynhaliodd Cyngor Ieuenctid Caerdydd Uwchgynhadledd Ieuenctid Cymru Gyfan ar yr argyfwng hinsawdd.





ER MWYN CAEL LLWYDDIANT YN NOD 3 BYDD CAERDYDD YN...

- ✓ Gweithio gyda phlant a theuluoedd i gael y gefnogaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.
- ✓ Gwella bywydau plant a phobl ifanc na allant fyw gyda'u teuluoedd.
- ✓ Sicrhau bod plant yn cael y dechreuad gorau mewn bywyd.

Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd

Cardiff Family Advice and Support



› GWASANAETH CYNGOR A CHYMORTH I DEULOEDE

Er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn derbyn y cymorth cywir ar yr adeg gywir, mae Cyngor Caerdydd wedi gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd i helpu i ddatblygu'r gwasanaeth Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd newydd.

Mae enghreifftiau o ymagwedd sy'n seiliedig ar hawliau wedi cynnwys pobl ifanc yn y prosesau recriwtio i dimau staff a datblygu eu gwefan.



› CHI YW'R DYFODOL - DARPARIAETH I'R IEUENCTID

Mae Chi Yw'r Dyfodol yn ddarpariaeth newydd i'r ieuencid a gafodd ei lansio'n benodol ar gyfer unigolion sy'n brofiadol yn y maes gofal. Mae'n rhoi lle diogel iddynt gymdeithasu, dysgu sgiliau newydd a chael hwyl. "Fel un a adawodd gofal fy hun, rwy'n gwybod pwysigrwydd cael lle i dyfu a gwella ynddo" - Olivia Carbasa, Swyddog Projectau dan Hyfforddiant.

› STRWYTHURAU CYFRANOGOL O FEWN Y GWASANAETHAU PLANT

Cynhaliwyd adolygiad o strwythurau Cyfranogol o fewn y gwasanaethau plant. O ganlyniad uniongyrchol i hyn, mae fframwaith cyfranogi yn cael ei ddatblygu a chomisiynwyd 'Offer Eich Meddwl Eich Hun' er mwyn sicrhau y clywir lleisiau plant a phobl ifanc ar draws dimau'r gwasanaethau plant.




› MENTER CYFEILLGAR I FABANOD

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi llwyddo i ennill achrediad Menter Cyfeillgar i Fabanod UNICEF ym meysydd Mamolaeth, Newyddenedigol ac Ymwelwyr Iechyd. Mae'r achrediad yn gofyn i leoliadau iechyd gadw at set o safonau byd-eang sy'n cynnwys:

- Cefnogi menywod beichiog i gydnabod pwysigrwydd bwydo ar y fron a pherthnasoedd cynnar.
- Cefnogi pob mam a babi i gychwyn perthynas agos a bwydo'n fuan ar ôl yr enedigaeth
- Cefnogi mamau i wneud penderfynu deallus ynghylch cyflwyno bwyd neu hylifau heblaw am laeth y fron
- Cefnogi rhieni i gael perthynas agos a chariadus gyda'u babi - bydd hyn yn helpu sicrhau bod babanod yn cael y dechreuad gorau mewn bywyd

> NOD 4

MAE POB PLENTYN A PHERSON IFANC YN CAEL ADDYSG DDA SY'N EI DDYSGU AM EI HAWLIAU



ER MWYN CAEL LLWYDDIANT YN NOD 4 BYDD CAERDYDD YN...

- ✓ Sicrhau bod plant a phobl ifanc nad ydynt yn gallu byw gyda'u teuluoedd yn cael addysg dda.
- ✓ Gweithio gyda UNICEF i sicrhau bod pob ysgol yn addysgu ac yn parchu hawliau plant.
- ✓ Rhoi i bob disgybl addysg sy'n bodloni ei anghenion, ble bynnag sy'n bosibl yn safle'r ysgol.
- ✓ Gweithio gyda'i gilydd i helpu plant a phobl ifanc i fod yn oedolion ar gyfer byw'n annibynnol, dinasyddiaeth weithgar a byd gwaith



> RHAGLEN URDDAS MISLIF

Mae Caerdydd wedi gweithio gyda 1,400 o ddisgyblion benywaidd i lansio menter Urddas Mislif i ddarparu cynhyrchion mislif mewn ysgolion ar draws y ddinas. Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, mae'r cynllun newydd wedi'i ddylunio i hyrwyddo urddas mislif a mynd i'r afael â thlodi mislif mewn ysgolion, gan helpu merched a menywod ifanc i gyrraedd eu potensial.



> YSGOLION SY'N PARCHU HAWLIAU

Buom yn gweithio gyda UNICEF i gyflwyno'r Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau'n raddol ar draws y ddinas. Y nod yw creu lleoedd diogel ac ysbrydoledig i ddysgu, lle y caiff plant eu parchu, caiff eu talentau eu meithrin a lle y gallant ffynnu. Hyd yn hyn:

- Mae 41 o ysgolion wedi "ymrwymo i hawliau", ar ôl cyflawni EFYDD
- Mae 12 o ysgolion yn "ymwybodol o hawliau" ar ôl cyflawni ARIAN
- Mae 3 ysgol yn "parchu hawliau" ar ôl cyflawni AUR



> CWRICWLWM AM OES

Mae'r tîm Cwricwlwm am Oes wedi datblygu rhwydwaith o gydlynwyr ABCh ar draws ysgolion uwchradd i wella'r cwricwlwm a gynigir gan adnabod materion, arfer da a rhannu adnoddau. Maent hefyd wedi gweithio gyda gofawyr ifanc i ddarparu hyfforddiant ar bwnc perthnasoedd iach.

Mae'r tîm yn gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaethau plant i ddatblygu sgiliau a gallu'r rhai sy'n gadael gofali i fyw yn annibynnol ac maent wedi cyhoeddi dau adnodd dysgu: un ar berthnasoedd iach ac un arall ar leihau troseddau â chyllyll.

> NOD 4



> EOTAS

Mae disgyblion a Addysgir Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) wedi datblygu siarteri sy'n seiliedig ar hawliau yn yr ystafell dosbarth ac mae arolygwyr ifanc wedi cymryd rhan mewn prosesau arolygu darparwyr er mwyn sicrhau y caiff barn disgyblion eu bwydo i mewn i gynlluniau gwella.



> CYNLLUNIAU ADDYSG PERSONOL

Bellach mae gan bob plentyn sy'n derbyn gofal Gynllun Addysg Personol (CAP) a oruchwylir gan athro dynodedig a gweithiwr cymdeithasol er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau. Mae'r holl rai sy'n gyfrifol am oruchwyllo CAPau wedi derbyn hyfforddiant priodol.



> NOD 5

MAE GAN BLANT IECHYD CORFFOROL, MEDDYLIOL AC EMOSIYNOL DA AC MAEN NHW'N GWYBOD SUT I GADW'N IACH



ER MWYN CAEL LLWYDDIANT YN NOD 5 BYDD CAERDYDD YN...

- ✓ Rhoi mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc fod yn actif yn ystod eu bywydau pob dydd trwy:
 - Sicrhau bod y ffyrdd yn fwy diogel gyda mwy o ardaloedd 20 mya
 - Darparu lleoedd diogel i chwarae
 - Darparu llwybrau cerdded a beicio diogel
 - Gweithio gydag ysgolion i annog disgyblion i gerdded, neu fynd ar sgwter neu feic i'r ysgol yn ddiogel
- ✓ Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn hapus ac yn iach trwy:
 - Roi'r gefnogaeth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt pan fo'u hangen arnynt
 - Rhoi rhywun iddynt siarad ag ef pan fydd ei angen arnynt
 - Eu haddysgu sut i aros yn hapus ac yn iach



> CYNLLUN PEILLOT STRYD YSGOL

Lansiwyd cynllun peilot stryd ysgol Caerdydd er mwyn helpu i sicrhau y gall plant yng Nghaerdydd fynd i'r ysgol mor ddiogel â phosibl trwy atal traffig o gwmpas 5 o fynedfeydd ysgolion yn ystod oriau brig gollwng a chasglu.



> RHAGLEN CYNLLUN TEITHIO LLESOL YSGOLION

Cafodd Rhaglen Cynllun Teithio Llesol i Ysgolion ei lansio i roi cyngor a chymorth i bob ysgol yng Nghaerdydd fel y gall ddatblygu Cynllun Teithio Llesol sy'n benodol i'w hysgol ac mae'n rhan o ymrwymiad y Cyngor i sicrhau bod pob ysgol yng Nghaerdydd wedi datblygu Cynllun Teithio Llesol erbyn 2022.

Mae'r buddion yn cynnwys: lefel uwch o weithgarwch corfforol gan ddisgyblion a rhieni, diogelwch gwell ar y ffyrdd ac ansawdd aer gwell



> CYNLLUN CHWARAE AR Y STRYD

Bu Cyngor Caerdydd yn gweithio gyda Chwarae Cymru i adennill strydoedd y ddinas er mwyn i blant a phobl ifanc hawlio eu hawl i chwarae. Mae newidiadau i'r polisi priffyrdd yn galluogi trigolion i wneud cais effeithlon i gau eu strydoedd am 2 awr unwaith y mis. Ar hyn o bryd mae 8 stryd yn weithredol yn y cynllun ac mae rhagor yn ymuno.



> GWASANAETH IECHYD MEDDWL PLANT A'R GLASOED

Gwnaed y penderfyniad i ddychwelyd y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn ôl i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd wedi bod yn cymryd rhan drwy gydol y project, gan sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio i fodloni eu hanghenion. Cyflogwyd tîm o weithwyr gwydnwch i gefnogi ysgolion a gwella cymorth mewn cymunedau ynghylch iechyd a lles emosiynol i blant a phobl ifanc. Bellach mae tri o weithwyr iechyd meddwl sylfaenol yn y cymunedau er mwyn gwella gwasanaethau a chymorth i blant a phobl ifanc

Staff healthy travel charter

Cardiff public sector commitments 2019-22



Working together, for our sites in Cardiff, we commit to...


Public transport
Offer discounts on public transport to staff in our organisations, including Cardiff Bus and Transport for Wales Rail Services, and explore discounts with other operators
Walking, cycling and public transport
Contribute to an interactive map showing all walking and cycling infrastructure and public transport links for our main public sector sites in Cardiff
Cycling
Offer the cycle to work scheme to all staff
Provide secure cycle storage and showers at all main sites
Improve access to bicycles at work, e.g. pool areas and footpaths
Facilitate and promote free cycle training and maintenance sessions
Review together our travel expenses policies, to encourage uptake of cycling
Communication and awareness
Establish a network of sustainable travel champions across our organisations
Agree and use consistent communications messages with the public, visitors and staff on healthy travel
Promote and consider healthy travel options and benefits when advertising roles in our organisations
Senior staff and managers routinely promoting and modelling active and sustainable travel behaviour
Agile working
Increase availability and uptake of tele and video conferencing for meetings where appropriate

> SIARTER TEITHIO IACH CAERDYDD

Mae 14 o sefydliadau wedi cofrestru gyda Siarter Teithio Iach Caerdydd. Set o 14 o ymrwymiadau i annog staff ac ymwelwyr â'n safleoedd i gerdded, beicio, mynd ar drafnidiaeth gyhoeddus neu ddefnyddio cerbyd allyriadau isel iawn. Mae hyn i helpu pobl yng Nghaerdydd i fod yn iachach ac yn hapusach, ac i wella ansawdd yr aer i genhedloedd y dyfodol.



› CAERDYDD SY’N DDA I BLANT



› MYFYRDODAU A HERIAU AR GYFER Y FLWYDDYN I DDOD

Gwnaed cynnydd da ar draws yr holl nodau sy’n Dda i Blant. Fodd bynnag, bydd rhaid i waith monitro a gwerthuso parhaus gael ei wneud er mwyn mesur newid dros amser. Mae’r data o arolwg y staff a’r disgyblion wedi darparu gwaelodlin i’w defnyddio o fewn fframwaith perfformiad.

Mae cyflwyno cynllun gweithredu manwl i UNICEF wedi sbarduno cyfnod gweithredu i’w ddilyn gan asesiad gan banel o arbenigwyr.

Mae meysydd gweithredu yn cynnwys:

- Gweithio gyda UNICEF i gyflawni model hyfforddi’r hyfforddwr
- Bod ag ymagwedd gynlluniedig at hyrwyddo pwysigrwydd plentyndod a hawliau plant
- Parhau i fesur gwybodaeth a hyder dinasyddion a phlant o gwmpas y rhaglen CFC
- Hyrwyddo’r swit o ddeunyddiau dysgu ar draws pob partner
- Gwerthuso a mireinio’r Arolwg CFC
- Gweithio gyda phlant a phobl ifanc i ddatblygu’r Strategaeth Rhianta Corfforaethol newydd

- Datblygu fframwaith cyfranogi ar gyfer y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol
- Gweithio gyda’r Rhai sy’n Gadael Gofal i ddatblygu sgiliau bywyd annibynnol
- Gweithio gyda phlant a phobl ifanc i ddylanwadu ar y Cynllun Datblygu Lleol.
- Mireinio systemau i alluogi tracio a monitro effeithiol ar dargedau cyrhaeddiad addysgol, deilliannau a chyrchfannau ar gyfer Plant sy’n Derbyn Gofal